

Diwygio radical i blant sydd â phrofiad o ofal

Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Mawrth 2023

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i wasanaethau ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal, siaradodd aelodau'r Pwyllgor â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, rhieni y mae eu plant wedi cael eu cymryd – neu sydd mewn perygl o gael eu cymryd – i mewn i ofal, a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ledled Cymru.

Gwaith ymgysylltu

Teithiodd aelodau'r Pwyllgor, ynghyd â swyddogion y Senedd, ledled Cymru i gynnal 10 cyfweiliad manwl gyda grwpiau o bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Chwefror 2023. Diben y gwaith ymgysylltu oedd clywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc, a'r rhai sy'n eu cefnogi, am yr heriau y maent yn eu hwynebu yn y system ofal.

Cyfranogwyr

Buom yn siarad â'r canlynol:

- Mamau a thadau a gefnogir gan Brosiect Undod y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS), ac aelodau o staff NYAS sy'n eu cefnogi.



- Pobl ifanc a gefnogir gan brosiectau amrywiol Barnardo's Abertawe, ac aelodau o staff Barnardo's sy'n gweithio gyda phobl ifanc ledled Cymru.
- Aelodau o staff prosiect Tai yn Gyntaf Llamau.
- Aelodau o staff sy'n cynrychioli adran gwasanaethau plant Cyngor Dinas Sir Fynwy.

Roedd yr holl bobl ifanc y buom yn siarad â hwy wedi cael profiad byw o fod mewn gofal, symud i ffwrdd oddi wrth eu rhieni biolegol fel plant, a/neu bod yn rhiant i blentyn sydd wedi cael – neu sydd mewn perygl o gael – ei gymryd i mewn i ofal.

Mae'r holl staff y gwnaethom siarad â hwy yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, neu'n darparu cymorth i gynlluniau sy'n gwneud hynny.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r bobl ifanc a siaradodd mor onest â ni am eu bywydau. Hoffem hefyd ddiolch i'r staff ymroddedig a gwybodus y gwnaethom siarad â hwy, ac i bawb a weithiodd mor galed y tu ôl i'r llenni i hwyluso'r digwyddiadau ymgysylltu hyn.

Methodoleg

Cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau wyneb yn wyneb, mewn lleoliadau a gafodd eu dewis gan y staff sy'n cefnogi'r bobl ifanc neu sy'n rhedeg y prosiectau.

Gwnaethom holi'r bobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol ynghylch eu profiadau o'r system ofal a beth allai newid i wella bywydau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Yn dibynnu ar bwy roeddem yn siarad â hwy, gwnaethom holi ynghylch y canlynol:

- Profiadau o fynd i mewn i ofal
- Profiadau o dyfu i fyny mewn gofal
- Profiadau o adael gofal
- Profiadau o gael plentyn sydd mewn perygl o gael ei gymryd i mewn i ofal, neu sydd wedi cael ei gymryd i mewn i ofal
- Profiadau o weithio gyda gweithwyr proffesiynol statudol, fel gweithwyr cymdeithasol
- Profiadau o weithio gydag elusennau a gweithwyr proffesiynol eraill
- Safbwyntiau ar yr hyn sydd angen ei newid am unrhyw ran o'r system ofal i wella bywydau plant a phobl ifanc sydd mewn gofal

Gwnaethom hefyd wahodd yr holl gyfranogwyr i gysylltu â'r clerod os oeddent am anfon rhagor o wybodaeth atom ar ôl y cyfweiliadau.

Y safbwyntiau a nodir yn yr adroddiad hwn

Barn y bobl ifanc a'r staff y buom yn siarad â hwy yw'r safbwyntiau a nodir yn yr adroddiad hwn. Nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfleu pwyntiau allweddol y trafodaethau a gafodd eu cynnal yn ystod ein gwaith ymgysylltu. Nid yw'n gofnod gair am air o'r drafodaeth honno. Fodd bynnag, rydym wedi cynnwys rhai datganiadau arbennig o bwerus gan bobl y gwnaethom siarad â hwy fel dyfyniadau. Nodir y rhain yn glir yn y testun.

1. Materion trawsbynciol

Gwasanaethau statudol

Agwedd gyffredinol gwasanaethau statudol

Roedd bron pob un o'r bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a'r rhieni biolegol y gwnaethom siarad â hwy yn teimlo mai sefyllfa ddiodyn llawer o adrannau gwasanaethau cymdeithasol oedd cadw plant oddi wrth eu rhieni, yn hytrach na gweithio i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Roedd hon yn farn arbennig o gyffredin ymhlith rhieni sydd â phrofiad o ofal.

"Methodd y system fi a nawr mae'n methu fy mhlentyn."

Er bod pawb yn cytuno bod amddiffyn plant yn flaenoriaeth, roedd pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn glir y gallai rhoi mwy o gymorth gan ystod o wasanaethau fod yn gam mawr ymlaen i gadw teuluoedd gyda'i gilydd.

Dyweddod rhai sydd wedi gadael gofal wrthym eu bod yn teimlo bod awdurdodau lleol yn eu trin hwy a phlant eraill sydd â phrofiad o ofal fel ystadegau.

Roedd eraill yn teimlo'n ddig ynghylch y system ond yn dweud, os oeddent yn dangos unrhyw emosiwn neu'n ceisio eirioli ar ran eu hunain er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed - y cawsant eu labelu'n anodd, yn wrthwynebus neu'n anwadal. Dywedodd gwahanol grwpiau o staff y trydydd sector wrthym mai'r dull statudol yw un ateb i bawb. Nid yw rhai pobl ifanc angen yr adnoddau cyfyngedig a gynigir iddynt. Ond ar gyfer y rhan fwyaf mae angen llawer, llawer mwy nag a roddir iddynt.

Niferoedd a throsiant gweithwyr cymdeithasol

Soniodd pob person ifanc sydd â phrofiad o ofal eu bod wedi cael llawer o wahanol weithwyr cymdeithasol. Dywedodd rhai cyfranogwyr wrthym eu bod yn cael eu cefnogi gan gymaint o weithwyr cymdeithasol fel nad oeddent yn gallu cofio enwau rhai ohonynt. Cawsom wybod eu bod yn 'mynd a dod' – sy'n golygu bod yn rhaid iddynt ailadrodd eu straeon dro ar ôl tro.

"Rwy'n treulio fy mywyd yn siarad â phobl newydd bob dydd."

Dywedodd rhai wrthym fod hyn yn golygu bod y berthynas rhyngddynt a gweithwyr cymdeithasol yn tueddu i fod yn ansefydlog a bod diffyg ymddiriedaeth.

Eglurodd swyddogion o Gyngor Sir Fynwy wrthym y bydd pobl ifanc yn dod i gysylltiad â llawer o weithwyr cymdeithasol yn ystod eu hoes. Mae hyn oherwydd bod angen gwahanol setiau o sgiliau proffesiynol ar gyfer gwahanol gamau yn y system ofal.

Fodd bynnag, dylai fod parhad o fewn pob gwasanaeth arbenigol. Mae materion o ran staffio/recriwtio a heriau ariannu ar gyfer adrannau gwasanaethau plant yn gwneud hynny'n anodd.

Llwyth achosion gweithwyr cymdeithasol

Clywsom dro ar ôl tro am y pwysau ar wasanaethau statudol a bod gan weithwyr cymdeithasol llwyth achosion mawr. Dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol wrthym fod gan y rhan fwyaf o weithwyr cymdeithasol yn eu profiad hwy llwyth achosion o tua 35 o blant, a bod gan rai dro 50.

Awgrymodd un aelod o staff, er mwyn meithrin perthnasoedd effeithiol ac adeiladol â phobl ifanc, na ddylai gweithwyr achos fod â llwyth achosion o fwy na 15 o bobl ifanc ar unrhyw adeg.

Datblygu perthnasoedd

Eglurodd rhai cyfranogwyr y gallai fod gennych 'wrthdrawiad personoliaeth' gyda'r gweithiwr cymdeithasol sydd wedi'i neilltuo ichi, a oedd yn ei gwneud yn anodd iawn ymddiried ynddynt. Gallai hyn achosi problemau, o ystyried bod perthynas gadarnhaol ac agored yn hanfodol i gydweithio.

Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym eu bod yn teimlo bod diffyg empathi weithiau gan rai gweithwyr cymdeithasol wrth ymdrin â hwy. Gall deimlo bod y gweithwyr cymdeithasol yn mynd drwy ymarfer ticio blychau pan fyddant yn rhyngweithio â hwy.

Fodd bynnag, clywsom hefyd y gall agweddau gweithwyr cymdeithasol amrywio'n aruthrol, o bosibl oherwydd y diwylliant o fewn awdurdod lleol neu dîm penodol. Awgrymodd un person ifanc a'r staff a oedd yn gweithio gyda hi hefyd fod gweithwyr cymdeithasol 'newydd' i'w gweld yn fwy gofalgwr a meithringar.

Dywedodd person ifanc arall wrthym am un gweithiwr cymdeithasol, a gymerodd yr amser i ddod i'w hadnabod fel person. Teimlai fod ei pherthynas â'r gweithiwr cymdeithasol hwnnw, a chanlyniadau'r berthynas honno, yn llawer mwy cadarnhaol o ganlyniad.

"Fe wnaethon nhw sylweddoli nad dim ond y person a oedd yn cael ei ddisgrifio ar ddarn o bapur oeddwn i. Cymerodd un person i gymryd siawns arnaf i."

Gwasanaethau ataliol a chymorth i deuluoedd

Clywsom fod llawer o blant a phobl ifanc yn y system ofal wedi wynebu amgylchiadau teuluol anodd, gan gynnwys esgeulustod a cham-drin corfforol. Dywedodd llawer o'r bobl ifanc a'r staff y gwnaethom siarad â hwy mai'r hyn sy'n allweddol yw atal hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf. Byddai hyn yn atal plant rhag cael eu cymryd o'u teuluoedd.

Clywsom gan un grŵp o staff y dylai gwasanaethau cymorth ddechrau cyn i'r plentyn gael ei eni (e.e. iechyd meddwl amenedigol). Roedd staff yn ein hannog i edrych ar y gydberthynas rhwng gwasanaethau ataliol a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant neu blant mewn gofal ym mhob awdurdod lleol.

Roedd pobl ifanc a staff yn cydnabod bod angen newid mawr. Ond roeddent o'r farn bod buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol a chymorth i deuluoedd yn hytrach na defnyddio prosesau adweithiol a drud i 'drwsio problemau' yn y dyfodol yn werth da am arian.

"Peidiwch ag achub y plant rhag y rhieni ac achubwch y plant rhag y system."

Rôl gweithwyr proffesiynol annibynnol

Cymorth i bobl ifanc

Soniodd llawer o'r bobl ifanc y buom yn siarad â hwy sut yr oeddent yn gwerthfawrogi'r cymorth emosiynol ac ymarferol y maent wedi'i gael gan weithwyr cymorth ac eiriolwyr. Clywsom ddiolchgarwch pobl ifanc i'r gwasanaethau a'r gweithwyr hyn bob tro y buom yn siarad â phobl ifanc neu rieni biolegol sydd â phrofiad o ofal.

"Dydw i ddim yn gwybod ble byddwn i hebddyn nhw."

Mae'r math o bethau yr oedd pobl ifanc yn eu gwerthfawrogi yn cynnwys:

- Cael rhywun i wrando arnynt: rhywun ar ddiwedd y ffôn na fydd yn barnu wrth iddynt siarad pan fyddant yn cael trafferth.
- Cael lle i fynegi eu teimladau, heb ofni adlach, am yr hyn y maent yn mynd drwyddo.

- Rhywun i roi mecanweithiau ymdopi iddynt i'w helpu i reoli anawsterau yn eu bywydau.
- Cael rhywun i'w helpu gyda phethau ymarferol, fel ysgrifennu CV, gwneud cais am swydd, rheoli eu sefyllfa ariannol, symud tŷ, neu ddechrau gweithgareddau newydd.
- Rhywun sy'n eu hadnabod a beth maent wedi bod drwyddo i roi cyngor ac adborth gonest iddynt.
- Rhywun sy'n gallu cysylltu â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill pan nad yw'r person ifanc yn teimlo y gall wneud hynny.
- Rhywun sy'n trefnu diwrnodau allan a gweithgareddau cymdeithasol iddynt.

Gwelsom y perthnasoedd agos iawn a oedd wedi'u meithrin rhwng eiriolwyr/gweithwyr cymorth a phobl ifanc a oedd mewn sefyllfaoedd heriol iawn, gan gynnwys llawer o rieni sydd â phrofiad o ofal y tynnwyd eu plant eu hunain o'u gofal.

Pwysigrwydd annibyniaeth oddi wrth awdurdodau statudol

Dywedodd pob un o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â hwy eu bod yn gwerthfawrogi annibyniaeth gweithwyr cymorth o'r trydydd sector. Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym fod cael eiriolwr neu weithiwr elusen sy'n mynd gyda hwy i gynadleddau achos ffurfiol ond nad oes ganddo bleidlais ffurfiol fel rhan o'r trafodion hynny, yn ddefnyddiol iawn. Mae hyn yn cadarnhau eu safle fel rhywun annibynnol.

Cytunodd y staff. Amlygwyd ganddynt y gwerth o fod y tu allan i wasanaethau statudol. Mae staff mewn gwell sefyllfa i feithrin ymddiriedaeth gyda'r person ifanc. Gallant herio'r person ifanc pan fo angen, a bod yn onest ynglŷn â'r hyn sy'n mynd o'i le. Gallant hefyd ddwyn gwasanaethau statudol i gyfrif pan fyddant yn ymddwyn yn annheg neu'n methu â chyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

"Barnado's yw'r bont rhwng y system a phobl ifanc."

Roedd gan rai o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â hwy ddiffyg ymddiriedaeth mawr yn y bobl sy'n gweithio i awdurdodau lleol. Dywedodd un cyfranogwr wrthym nad oedd am ymgysylltu â sefydliad y trydydd sector oherwydd ei bod yn amheus eu bod hwy hyd yn oed yn gweithredu ar ran 'y cyngor'.

Natur fyrdymor cyllid y trydydd sector

Clywsom gan staff a defnyddwyr gwasanaeth fod llawer o brosiectau sy'n cefnogi pobl ifanc a rhieni sydd â phrofiad o ofal yn gyfyngedig o ran amser, neu ar gael i bobl ifanc mewn amgylchiadau penodol yn unig. Gall hyn fod yn anodd i'r person ifanc wrth i'r cymorth y mae'n dibynnu arno ddod i ben.

Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym y byddai'n well ganddynt mewn gwirionedd gael perthynas hirdymor gyda gweithiwr cymorth elusen neu eiriolwr y maent yn ymddiried ynndo, yn hytrach na newid gweithwyr cymorth wrth iddynt symud rhwng prosiectau.

Iechyd

Cymorth ar gyfer iechyd meddwl

Clywsom fod anghenion iechyd meddwl sylweddol ymhlith llawer o bobl ifanc a rhieni biolegol sydd â phrofiad o ofal. Ar y cyfan, clywsom nad oedd yr anghenion iechyd meddwl hynny'n cael eu diwallu.

Clywsom am yr anobaith y mae llawer wedi'i deimlo pan na fyddant yn cael y cymorth neu'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt. Soniodd gweithwyr yn aml am atgyfeiriadau'n cael eu gwrthod oherwydd nad oedd y plentyn neu'r person ifanc yn cyrraedd y trothwy meddygol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) arbenigol er ei fod yn aml yn dangos lefelau uchel o drallod emosiynol.

Roedd rhwystredigaeth ymhlith rhai staff nad oedd 'profiad o ofal', o bosibl gyda'r trawma sy'n gysylltiedig â'r broses o gael eu cymryd o deulu biolegol, yn cael unrhyw effaith ar hawl i gymorth iechyd meddwl.

Eglurodd staff o un prosiect inni nad yw oedran corfforol llawer o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cyd-fynd â'u hoedran emosiynol. O ganlyniad i hynny, nid yw llawer o wasanaethau ar gael iddynt ar ôl iddynt droi'n 18 oed, er y gallent fod yn fuddiol ac yn ddefnyddiol.

Roedd hanes un person ifanc yn atgyfnerthu'r pryderon hynny. Dywedodd wrthym fod yr awdurdod lleol wedi darparu therapydd iddo. Daeth y cyllid ar gyfer y therapydd i ben pan ddaeth yn 21 oed, ond roedd gwir angen cymorth y therapydd arno o hyd. Roedd yn ffodus oherwydd parhaodd y therapydd i'w drin am ddim. Ond ni fyddai hynny ar gael i eraill.

Awgrymodd gweithwyr prosiect eraill fod materion iechyd meddwl yn llawer mwy cymhleth nawr nag yr oeddent flynyddoedd yn ôl. Clywsom fod achosion a oedd yn arfer bod yn rhai 'pen uchel' wedi'u gwthio i lawr i ymyrraeth gynnar ers hynny. Clywsom sawl stori lle'r oedd plant â syniadaeth hunanladdiad wedi cael gwybod nad oeddent yn bodloni'r meini prawf ar

gyfer CAMHS. Roedd rhai pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn myfyrio'n gadarnhaol ar y gwasanaethau cwnsela a gawsant yn yr ysgol. Ond dywedodd eraill nad oedd cymorth ar gael yn eu hysgolion.

Eglurodd staff wrthym fod pobl ifanc nad ydynt efallai mewn argyfwng uniongyrchol, ond sydd angen cymorth o hyd. Mae'r bobl hynny yn cael eu hanghofio o dan wasanaethau statudol.

Dywedodd un gweithiwr prosiect wrthym fod cymorth iechyd meddwl yn 'enbyd', a bod angen i bobl ifanc fod wedi'u gwthio i'r eithaf i fod yn gymwys am unrhyw gymorth iechyd meddwl o gwbl.

"Rydyn ni'n anghofio'r ochr feithringar ohono. Rydyn ni'n anghofio eu bod nhw'n blant."

Dywedodd rhai staff elusennau wrthym fod problemau ymlyniad yn gyffredin iawn ymhlith pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Clywsom fod hyn yn ymwneud â datblygiadau ymennydd babanod a gall gael ei effeithio'n wael iawn pan fydd plant yn cael eu cymryd o'u prif ofalwyr. Gall hyn arwain at anawsterau eithafol pan fydd plant sydd â phrofiad o ofal yn hŷn, ond nid yw'r 'anhwylder' ymlyniad hwnnw'n bodloni'r meini prawf diagnosis meddygol ar gyfer CAMHS statudol.

Clywsom hefyd y gall ysgogi teimladau o gefnu ymhlith plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal pan fydd staff sy'n eu cefnogi, naill ai o wasanaethau statudol neu'r trydydd sector, yn symud ymlaen am ba bynnag reswm.

Cymorth ar gyfer iechyd a llesiant corfforol

Clywsom fod angen cymorth ar rai pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gyda'u hiechyd corfforol yn ogystal â'u hiechyd meddwl.

Clywsom fod rhai merched mewn gofal yn ei chael yn anodd cael gafael ar gynhyrchion mislif sylfaenol. Dywedodd rhai bod yn rhaid iddynt ddefnyddio hancesi papur fel tywelion mislif. Maent hefyd yn cael trafferth cael gafael ar gynhyrchion mislif sylfaenol eraill. Er bod rhai o sefydliadau'r trydydd sector yn darparu mynediad am ddim i'r cynhyrchion hyn, a roddir yn aml gan fusnesau lleol, clywsom ofnau nad oedd hyn yn gynaliadwy nac yn ddymunol yn yr hirdymor.

Dywedodd cyfranogwr arall wrthym eu bod wedi gallu cael cymorth gan nyrs y GIG ar gyfer eu hiechyd rhywiol. Mae'r nyrs yn rhoi cyngor ac yn darparu condomau a thabledi rheoli genedigaethau am ddim. Mae hynny wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

Y newidiadau mawr sydd eu hangen: y system ofal yn ei chyfanrwydd

Clywsom y cynigion a ganlyn ar gyfer diwygiadau mawr i'r system ofal:

Eiriolwr penodedig: Dylid nodi yn y gyfraith y dylid neilltuo eiriolwr penodol yn awtomatig i bob plentyn a pherson ifanc mewn gofal y gallant gysylltu ag ef yn ôl yr angen. Rhaid i hyn fod yn gam i fyny o'r system bresennol o'r 'cynnig gweithredol' o eiriolaeth yn seiliedig ar fater.

Nodwedd warchodedig: Dylai profiad o ofal fod yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Hawl i gymorth iechyd meddwl: Dylai fod gan blant sydd â phrofiad o ofal yr hawl statudol i wasanaethau iechyd meddwl a therapiwtig hyd at 25 oed o leiaf. Fodd bynnag, mae angen iddo fod yn hyblyg – ni fydd angen hynny ar bob plentyn ac efallai y bydd angen y cymorth y tu hwnt i 25 oed ar eraill.

Llwyth achosion mwyaf: Dylid cyfyngu llwyth achosion gweithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant statudol i uchafswm gyda nenfwd gosodedig a bennir ymlaen llaw na ellir mynd y tu hwnt iddo. Awgrymwyd mai 15 o bobl ifanc fyddai hyn

Sefydlogrwydd gweithwyr achos: Rhaid i weithwyr cymdeithasol aros fel gweithwyr achos am gyfnod gofynnol er mwyn sicrhau parhad i blant a phobl ifanc. Er bod heriau amlwg, dylid anelu at y lleiafswm hwn.

Parchu a gwrando ar blant a phobl ifanc: Dylai hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr cymdeithasol fod â ffocws cryfach ar feithrin perthnasoedd cadarnhaol a pharchus gyda phlant a phobl ifanc. Rhaid i weithwyr fod yn empathig, yn garedig a dylent flaenoriaethu gwrando'n ofalus ar blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Cyfeirio'n well: Dylai fod yn ofynnol i'r gwasanaethau cymdeithasol gadw cofnodion cyfredol ar wasanaethau a phrosiectau a allai gefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a'u cyfeirio'n unol â hynny.

Cyllid: Rhaid i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ddarparu cyllid cynaliadwy a thymor hwy ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi plant sydd â phrofiad o ofal yn uniongyrchol.

2. Cyn gofal: lleihau'n ddiogel nifer y plant yn y system ofal

Asesu gallu rhieni

Gwasanaethau cymdeithasol

Teimlai'r rhan fwyaf o'r rhieni biolegol y gwnaethom siarad â hwy fod y gwasanaethau cymdeithasol yn tueddu i gamu i'r adwy pan fo plentyn yn cael ei gymryd oddi arnynt, yn hytrach nag yn ddigon cynnar i atal y plentyn rhag cael ei symud. Roedd pwysigrwydd cymorth cynnar i deuluoedd i atal y plentyn rhag cael ei symud yn y lle cyntaf yn thema allweddol.

Er gwaethaf y pryderon niferus a fynegwyd gan rieni biolegol ynghylch gwasanaethau cymdeithasol, awgrymodd rhai staff prosiect inni efallai nad ydym wedi clywed gan rieni ifanc sydd wedi wynebu'r profiadau mwyaf anodd gyda gwasanaethau cymdeithasol, nad ydynt o bosibl yn barod i siarad am y profiadau hynny.

Tryloywder

Roedd y rhan fwyaf o'r mamau ifanc y gwnaethom siarad â hwy yn teimlo nad oedd ganddynt lais. Clywsom gan yr holl rieni biolegol y gwnaethom siarad â hwy nad oeddent yn ymddiried mewn gweithwyr cymdeithasol statudol. Roedd rhai yn teimlo bod gweithwyr cymdeithasol wedi dweud anwireddau wrthynt. Teimlai llawer eu bod fel arfer yn cael gwybod am benderfyniadau a oedd yn effeithio arnynt ar y funud olaf cyn, neu hyd yn oed ar ôl, i'r penderfyniad gael ei roi ar waith.

Roedd y rhan fwyaf o'r merched ifanc y gwnaethom siarad â hwy yr oedd eu plentyn/plant wedi cael/yn mynd i gael eu symud dros dro neu'n barhaol, yn dweud wrthym mai gweithwyr meddygol proffesiynol neu weithwyr cymdeithasol gadael gofal a'u hatgyfeiriodd at y gwasanaethau cymdeithasol amddiffyn plant pan oeddent yn feichiog. Teimlai bron pob un ohonynt fod yr atgyfeiriad wedi'i wneud 'y tu ôl i'w cefn'.

Teimlai un o'r mamau ifanc fod y gwasanaethau cymdeithasol yn anonest â hi pan wnaethant gymryd ei phlentyn o'i gofal. Dywedodd wrthym fod ei gweithiwr cymdeithasol wedi dweud wrthi y byddai'n adlewyrchu'n gadarnhaol ar ei pharodrwydd i gydweithredu pe bai'n rhoi ei phlentyn yn wirfoddol mewn gofal, ac fe wnaeth hynny. Ei barn hi oedd bod y gwasanaethau cymdeithasol wedi gwrthod rhoi'r plentyn yn ôl iddi ers hynny.

Gwahaniaethu yn erbyn rhieni sydd â phrofiad o ofal

Roedd bron pob un o'r rhieni biolegol sydd â phrofiad o ofal y gwnaethom siarad â hwy yn teimlo'n gryf iawn, oherwydd eu bod hwy eu hunain wedi bod mewn gofal, eu bod yn cael eu barnu'n syth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn rhieni anaddas – cosb ddwbl a oedd yn gyfan gwbl y tu hwnt i'w rheolaeth. Buont yn siarad yn angerddol â ni am gylchoedd gofal, a sut yr oeddent yn credu bod y system ofal yn eu methu nhw a'u plant.

"Rydyn ni eisiau gallu rhoi mwy iddyn nhw."

Dyweddodd un rhiant ifanc i ddau fod y system yn gweithio yn ei herbyn. Unwaith y byddai'r plentyn cyntaf wedi'i gymryd, roedd rhagdybiaeth y dylid cymryd yr ail blentyn hefyd er mwyn cadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd.

"Nid yw fy ngwain yn ganolfan fabwysiadu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol."

Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni biolegol sy'n fenywod ifanc y buom yn siarad â hwy yn credu bod y gwasanaethau cymdeithasol o'r farn, fel pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, nad oeddent wedi cael modelau rôl rhianta cadarnhaol eu hunain, a'u bod felly'n debygol o fod yn rhieni 'anaddas'. Dywedodd rhai menywod ifanc wrthym fod hyn yn golygu eu bod yn cael eu cosbi ddwywaith: yn gyntaf, fel 'dioddefwyr' penderfyniadau yr oedd y gwasanaethau cymdeithasol eu hunain wedi'u gwneud am eu bywydau pan oeddent mewn gofal (e.e. effaith modelau rôl rhianta gwael arnynt yn sgil lleoliadau maeth), ac yn ail fel darpar rieni a oedd eisiau bywyd gwahanol i'w plant eu hunain.

Dyweddodd rhai mamau sydd â phrofiad o ofal wrthym hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi am beidio â chael rhwydwaith cymorth o'u cwmpas, sydd yn ôl y gwasanaethau cymdeithasol yn bwysig er mwyn helpu i fagu plentyn. Roeddent yn teimlo, oherwydd eu bod wedi cael eu cymryd o'u rhieni eu hunain ac yn symud o gwmpas llawer o leoliad i leoliad fel plentyn, eu bod yn llai tebygol na rhieni eraill o gael system gymorth.

Clywsom, i lawer o rieni sydd â phrofiad o ofal, y gall fod yn anodd ymgysylltu'n llawn â'r gwasanaethau cymdeithasol oherwydd nad oes gennyh ddogfennaeth swyddogol ar gyfer yr amser yr oeddech mewn gofal. Gall y ffaith nad oes ganddynt bob amser fynediad at ddogfennaeth swyddogol am eu bywydau adlewyrchu'n wael arnynt pan fyddant yn ymgysylltu â gwasanaethau statudol fel rhieni biolegol.

"Roedden nhw eisiau'r dogfennau amdana i mewn gofal, ond tydy hynny ddim yn ymwneud â fy mhlant i. Mae'n niweidio pobl."

Yr effaith ar blant y dyfodol pan fo un plentyn yn cael ei gymryd i mewn i ofal

Teimlai rhai menywod, os yw plentyn wedi'i gymryd yn barod, y byddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn anochel yn defnyddio hynny fel tystiolaeth y dylid cymryd plentyn dilynol hefyd.

Eglurodd staff o Barnardo's Reflect yng Nghaerdydd wrthym, os yw mamau yn cael plentyn wedi'i gymryd i mewn i ofal ac yn beichiogi eto yn fuan wedyn, yn eu profiad hwy mae'r ail blentyn hwnnw yn debygol iawn o gael ei roi mewn gofal hefyd.

Safonau rhianta annheg

Barn llawer o gyfranogwyr oedd, gyda chyfraniad y gwasanaethau cymdeithasol, nad oeddent yn cael mynd drwy'r un broses ddysgu â rhieni newydd eraill wrth iddynt addasu i'w bywyd gyda babi. Teimlai llawer o fenywod eu bod yn cael eu beirniadu am y materion lleiaf mewn ffordd na fyddai rhieni eraill.

"Does dim byd dwi'n ei wneud yn ddigon da – ac mae'n rhaid i fy mhientyn dalu amdano."

Clywsom am ganllawiau anghyson gan wahanol weithwyr cymdeithasol am bethau fel blaenoriaethu gwaith tŷ/chwarae gyda'r plentyn, cael teganau allan ac ar gael yn hawdd i'r plentyn/cadw'r tŷ yn daclus, ac ati.

Teimlai rhai o'r rhieni y buom yn siarad â hwy, os oeddent yn mynegi pryder ynghylch sut roedd eu plentyn yn cael ei drin mewn gofal maeth, eu bod yn cael eu hystyried yn 'anodd' – roedd enghreifftiau'n cynnwys rhieni a oedd wedi mynegi pryderon ynghylch sut roedd babanod a oedd newydd eu symud yn cael eu bwydo a pha sedd car oedd y mwyaf diogel.

Cymorth cadarnhaol

Clywsom rywfaint o adborth cadarnhaol ynghylch sut mae gwasanaethau cymdeithasol wedi gweithio gyda rhieni biolegol i'w cefnogi i gadw eu plentyn. Soniodd un fam ifanc sut yr oedd ei gweithiwr cymdeithasol wedi'i helpu i gofrestru ar gyfer cwrs tra roedd yn feichiog. Soniodd un arall fod ei gweithiwr cymdeithasol wedi cymryd yr amser i ddod i'w hadnabod a'i deall fel unigolyn.

Achos llys

Eglurodd rhai staff prosiect sut y gall gwrandawiadau llys fod yn llawn straen i rieni ifanc a pha mor bwysig yw'r cymorth emosiynol ar yr adeg hon. Clywsom fod profiad rhieni ifanc mewn gwrandawiadau llys yn dibynnu'n fawr ar y barnwr unigol. Mae rhai yn garedig ac yn siarad â'r rhieni ifanc, ond nid yw hyn bob amser yn wir.

Gall yr achos ei hun fod yn ddryslyd – gwybod beth i'w wneud, er enghraifft, gwybod pryd i sefyll yn y llys. Gall hyn hefyd fod yn wir am y derminoleg a ddefnyddir, yn arbennig pan fo ffactorau eraill yn cyfrannu, er enghraifft dyslecsia neu awtistiaeth.

Clywsom bryderon hefyd ynghylch hyd yr achos. Mewn un enghraifft, roedd mam ifanc wedi bod drwy achos gofal ers i'w babi gael ei eni ddwy flynedd yn gynharach ac nid oedd sicrwydd o hyd a oedd ei babi am aros gyda hi.

Clywsom gan gyfranogwyr a oedd wedi, neu a oedd yn adnabod eraill a oedd wedi, cael profiad o achos llys ynghylch eu plentyn oriau'n unig ar ôl y geni. Dywedodd rhai eiriolwyr wrthym, heb iddynt fynnu y gallai'r fam fynychu achos llys o bell o'r ysbyty, na fyddai'r fam wedi bod yn bresennol yn ystod yr achos. Clywsom am fregusrwydd merched ifanc a oedd newydd roi genedigaeth a'r trawma o ymdrin ag achosion gofal mewn ward ysbyty gyda dieithriaid llwyr o'u cwmpas.

Canolfannau asesu rhieni/canolfannau mamau a babanod

Weithiau, bydd llysoedd yn gorchymyn rhiant biolegol i dreulio amser mewn canolfan asesu rhieni (weithiau fel canolfannau/unedau mamau a babanod). Diben y canolfannau yw helpu i asesu ffitrwydd rhiant i fagu plentyn. Fel arfer mae gan y canolfannau oruchwyliaeth 24 awr, gan gynnwys teledu cylch cyfyng yn yr ystafelloedd gwely (clywsom, weithiau, yr unig le y gallwch fynd heb fod ar gamera yw'r ystafell ymolchi). Gofynnir cwestiynau i rieni biolegol am rianta, glendid, sut maent yn rheoli eu bywyd a bywyd y babi, ac ati.

Clywsom safbwyntiau cryf iawn gan nifer o bobl ifanc a gweithwyr cymorth am addasrwydd canolfannau mamau a babanod. Clywsom fod llawer o rieni yn cael trafferth mawr yno, yn arbennig os oes rhwystrau neu ffactorau ychwanegol fel dyslecsia neu awtistiaeth. Mae rhai sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf hefyd yn ei chael yn anodd. Ond, nid oes ganddynt lais o ran ble maent yn gorfod mynd.

"Roedd yn erchyll. Un o'r profiadau gwaethaf o fy mywyd i."

Clywsom fod mamau sy'n cael eu hanfon i leoliadau mamau a babanod yn meddwl mai ychydig iawn o obaith sydd ganddynt o gadw eu plentyn oherwydd bod y system yn eu herbyn. Mae'r disgwyliadau arnynt fel mamau yn afrealistig, ac nid ydynt yn cynrychioli bywyd y tu allan i'r lleoliad.

Soniodd rhai cyfranogwyr am straeon o ran pa mor ofidus y gall canolfannau asesu rhieni fod. Clywsom am y canlynol:

- Gwrthdaro a bwlio canfyddedig gan breswylwyr eraill.
- Methiant i nodi a chefnogi iselder ôl-enedigol.
- Rhieni a'u babanod yn cael eu hanfon y tu allan i Gymru oherwydd nad oes digon o le mewn canolfannau yng Nghymru.

Dywedodd rhai rhieni ifanc a oedd wedi cael profiad o ganolfannau asesu rhieni wrthym fod y canolfannau, yn eu barn hwy, yn eich llusgo i ffwrdd o'ch cartref, sy'n eich symud oddi wrth eich ffrindiau a'ch teulu. Yn eu barn hwy, cawsant eu cosbi wedyn gan y gwasanaethau cymdeithasol am beidio â chael y rhwydwaith cymorth cywir i fagu plentyn yn ddiogel.

Yn gyffredinol, barn y rhan fwyaf o gyfranogwyr oedd nad yw canolfannau asesu rhieni yn addas at y diben: roedd canfyddiad mai eu nod yw profi nad yw'r mamau'n ffit i ofalu am blentyn, yn hytrach na chefnogi rhieni i gadw eu plant.

Tadau

Profiadau tadau

Gwnaethom siarad â rhai tadau ifanc fel rhan o'n gwaith ymgysylltu. Roeddent i gyd yn teimlo nad oes digon o grwpiau cymorth i dadau; mae bob amser yn grwpiau i famau a phlant. Gwnaethant nodi bod rhai tadau'n rhianta ar eu pen eu hunain, a gallant deimlo'n arbennig o ynysig. Roedd staff o Barnardo's Reflect yn cytuno, a gwnaethant sôn wrthym eu bod yn teimlo ei bod yn bwysig datblygu mwy o wasanaethau gyda dynion mewn golwg.

Roedd un o'r tadau ifanc yn teimlo ei fod yn cael ei feirniadu a'i drin yn wahanol i famau gan wasanaethau statudol. Eglurodd ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei feirniadu ar sail ei ymddangosiad. Ychwanegodd, tra byddai'r fydwraig, pan ar ei phen ei hun â'i bartner, yn gofyn iddi a oedd ef yn ei cham-drin hi, ni wnaeth y bydwragedd erioed ofyn iddo *ef* a oedd *hi* yn ei gam-drin *ef*.

"Pan rwy wedi siafio tydyn nhw ddim yn dweud dim, ond pan mae gen i farf maen nhw'n fy meirniadu i."

Profiadau mamau o dadau eu plant a thrais domestig

Roedd gan y rhan fwyaf o'r mamau ifanc y gwnaethom siarad â hwy gysylltiad cyfyngedig neu ddim cysylltiad o gwbl â thad eu plant. Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr mewn perthynas o hyd â thad eu plentyn.

Dyweddodd un fenyw ifanc wrthym, pan gafodd ei phlentyn ei gymryd i mewn i ofal, fod ei phartner yn teimlo'n ddi-rym, yn cael ei anwybyddu a'i fod yn cael ei gosbi am brofiadau gofal ei bartner.

Dyweddodd cyfranogwr arall wrthym sut roedd yn teimlo bod safonau afrealistig wedi'u gosod ar ei phartner er mwyn gweld ei blentyn.

Roedd rhai o'r menywod y buom yn siarad â hwy wedi profi camdriniaeth gorfforol, emosiynol a rhywiol gan dad eu plentyn, neu gan bartneriaid blaenorol. Teimlai'r menywod hyn fod y trais domestig a brofwyd ganddynt naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol wedi cyfrannu at eu plant yn cael eu cymryd i mewn i ofal.

Teimlai rhai rhieni ifanc nad yw gwasanaethau statudol a'r system llysoedd yn aml yn ystyried effaith dreiddiol trais domestig ar fenywod, yn enwedig menywod ifanc iawn o dan 18 oed.

Dyweddodd y cyfranogwyr fod dynion sydd wedi cyflawni trais domestig yn rhydd i gael plant eraill gyda menywod eraill, tra bod mam sy'n dioddef trais domestig yn cael ei gorfodi i gael gwared ar eu plant ac ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd rhai o staff y trydydd sector a'r mamau ifanc y gwnaethom siarad â hwy yn gweld gwahaniaeth rhwng sut mae risg yn cael ei asesu ar gyfer dynion a menywod.

Cefnogaeth gan y teulu ehangach

Clywsom am y tensiwn y gall achosion llys ei achosi o fewn teuluoedd. Yn naturiol, bydd y gwasanaethau cymdeithasol am edrych i aelodau agos o'r teulu i ofalu am blentyn na all fyw gyda'r rhieni biolegol. Clywsom y gall hyn achosi rhwygiadau a gwanhau system gymorth sydd eisoes yn fregus i famau ifanc.

Dyweddodd un fenyw ifanc wrthym, pan oedd aelodau eraill o'i theulu yn ystyried mabwysiadu ei phlentyn, ei bod yn cael ei hannog i beidio â chysylltu â'r aelodau hynny, ac i'r gwrthwyneb. Gall

hynny ddileu ffynhonnell cymorth i famau, neu hyd yn oed achosi rhwygiadau mawr o fewn teulu.

Dywedodd swyddogion Cyngor Sir Fynwy wrthym, os yw trefniadau gofalu sy'n berthnasau yn debygol o achosi gwrthdaro o fewn y teulu, y dylid cynnal asesiad risg i liniaru effaith y drwgdeimlad hwnnw, gan roi cyfryngu ar waith os oes angen.

Cyswllt gyda'r plentyn

Roedd gan y rhan fwyaf o'r mamau y gwnaethom siarad â hwy yr oedd eu plentyn yn destun gorchymyn gofal rywfaent o gyswllt, cyfyngedig, â'u plentyn. Roedd yn amrywio o ychydig oriau bob wythnos i ychydig oriau bob mis.

Dywedodd rhai mamau wrthym nad oedd yr amser cyfyngedig hwn yn ddigon i ffurfio cyswllt rhiant gyda'r plentyn. Soniodd llawer o famau ifanc wrthym am eu profiadau pan oedd plentyn newydd-anedig neu blentyn ifanc iawn wedi'i gymryd o'u gofal 24 awr a bod y lefelau cyswllt yn isel iawn ar unwaith. Er bod hyn yn ddealladwy mewn amgylchiadau lle roedd rhiant yn fygythiad sylweddol i blentyn, roedd yn niweidiol iawn i'r cyswllt rhiant yn y mwyafrif o achosion lle'r oedd yr opsiwn i ddychwelyd y plentyn yn bosibilrwydd o hyd.

Eiriolwyr a'r 'cynnig gweithredol'

Eglurodd staff o Brosiect Undod NYAS wrthym nad yw pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd yn dda am gyfeirio rhieni ifanc at wasanaethau eiriolaeth. Roedd y staff a'r bobl ifanc y buom yn siarad â hwy yn cytuno bod rhai gweithwyr proffesiynol i'w gweld yn amheus o eiriolwyr sy'n cynrychioli rhieni biolegol ac yn amharod i ymgysylltu â hwy.

Eirioli dros rieni sydd â phrofiad o ofal

Clywsom gefnogaeth gyffredinol ac angerddol i rôl yr eiriolwr gan rieni biolegol. Roedd hyn yn cynnwys rhieni biolegol sydd â phrofiad o ofal yr oedd eu plant eu hunain wedi'u cymryd yn barhaol o'u gofal. Gwnaethom gwrdd â nifer o fenywod ifanc yn y sefyllfa hon, yr oedd rhai ohonynt yng nghanol achosion gofal gyda phlant dilynol.

Cafodd rhai o'r menywod ifanc y gwnaethom gwrdd â hwy eu plant wedi'u dychwelyd i'w gofal yn dilyn cymorth gan eiriolwr. Roedd eraill wedi gallu cadw plant dilynol yn eu gofal gyda chymorth eiriolwr.

Clywsom fod eiriolwyr wedi helpu rhieni biolegol y gwnaethom siarad â hwy drwy wneud y canlynol:

- Helpu rhieni biolegol i ddeall eu hawliau. Eglurodd un fenyw ifanc nad oedd yn gwybod bod cyfarfodydd amddiffyn plant yn cael eu cynnal a bod ganddi hawl i'w mynychu. Byddai cael eiriolwr wedi helpu.
- Dod i wrandawiadau llys a helpu i ddehongli prosesau neu derminoleg gyfreithiol.
- Darparu cymorth emosiynol ac ymarferol i'r person ifanc.
- Hwyluso cyfarfodydd gyda rhieni biolegol eraill i feithrin rhwydweithiau cymorth cyfoedion.

Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r rhieni biolegol a'u heiriolwyr mai dim ond ar ôl i un o'u plant gael ei gymryd o'u gofal yr oedd y cymorth eiriolaeth a gawsant wedi dechrau. Cawsom wybod y byddai'n rhoi mwy o siawns iddynt o beidio â chael y plentyn wedi'i symud yn y lle cyntaf pe bai wedi cael y cymorth eiriolaeth hwnnw yn ystod achosion cyfreithiol, yn hytrach nag ar ei ôl.

Clywsom hefyd gan rai staff fod bwlch yn y cymorth eiriolaeth. Dim ond ar gyfer rhieni sydd â phrofiad o ofal eu hunain y mae Prosiect Undod NYAS. Bwlch mawr yw'r ffaith nad oes gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer menywod ifanc sy'n agored i niwed nad ydynt wedi bod mewn gofal hyd nes bod un plentyn yn cael ei gymryd o'i gofal yn barhaol.

Clywsom hefyd fod gwahanol wasanaethau cymorth ar gael ledled Cymru. Nid yw pob rhiant ifanc yn gallu cael mynediad at yr un lefelau o gymorth eiriolaeth.

Cymorth gan y trydydd sector

Gwnaethom siarad â staff o Barnardo's Reflect a rhai o'u defnyddwyr gwasanaeth. Mae Reflect yn brosiect Cymru gyfan sydd â'r nod o atal menywod rhag beichiogi o fewn 12 mis i gael plentyn wedi'i gymryd o'u gofal.

Dywedodd y rhieni ifanc wrthym ei bod yn rhyddhad cael rhywfaint o gymorth gan Reflect, nad oeddent yn ei gael gan bobl eraill na chan y gwasanaethau cymdeithasol.

"Roedd yn teimlo nad oedd yn rhaid imi ddelio ag ef ar fy mhen fy hun mwyach."

*"Roedd yn braf cael rhywun yno i **mi**. I wella **fi**."*

Dywedodd staff Reflect wrthym ei bod yn cymryd amser i feithrin perthynas â'r rhieni biolegol. Yn anffodus, rhaid i rai prosiectau cymorth gau cyn iddynt gael amser i wneud hynny.

Dywedodd staff Barnardo's wrthym eu bod wedi dechrau canolbwyntio ar iechyd meddwl rhieni. Maent yn cynnal ymyriad rhianta strwythuredig – mae staff wedi'u hyfforddi i gynnig sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar i rieni, sy'n gallu edrych ar strategaethau ymdopi. Maent yn mesur effaith eu gwaith ar iechyd meddwl y rhieni ac ymddygiad y plentyn. Mae'r adborth hwn yn amhrisiadwy, a dylid ei wneud mewn awdurdodau lleol hefyd.

Bydwraedd ac ymwelwyr iechyd

Clywsom gan rai mamau ifanc, a'r eiriolwyr sy'n gweithio gyda hwy, fod bydwraedd yn tueddu i eiriol dros famau ac yn aml yn gweithio'n galed i'w cefnogi. Mae ymwelwyr iechyd yn cael eu cynnwys pan fydd atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol eisoes wedi'i wneud (neu'n aml yr ymwelydd iechyd sy'n gwneud yr atgyfeiriad).

Roedd gan un person ifanc fydwraig arbenigol, a gyfeiriwyd ati gan y fydwraig arferol. Teimlai fod y fydwraig arbenigol yn ardderchog. Dywedodd un person ifanc fod ganddi un fydwraig drwy Dechrau'n Deg, a oedd yn dda iawn. Fodd bynnag, credai fod bydwraig arall yr oedd ganddi ar gyfer ei hail blentyn yn wael iawn ac nad oedd yn gweithio'n hyblyg o amgylch ymrwymadau eraill y rhiant biolegol.

Ychwanegodd staff Prosiect Undod fod atgyfeiriadau ar gyfer cymorth eiriolaeth yn dueddol o ddod drwodd yn gyflym iawn gan fydwraedd, ymwelwyr iechyd a seicolegwyr plant.

Dywedodd rhai o'r gweithwyr proffesiynol y gwnaethom siarad â hwy eu bod wedi sylwi ar gydberthynas i'r gwrthwyneb mewn rhai ardaloedd rhwng nifer yr ymweliadau gan ymwelwyr iechyd a nifer y plant sy'n cael eu cymryd i mewn i ofal.

Llesiant y rhiant biolegol

Clywsom yn rheolaidd gan rieni biolegol nad oedd yr awdurdodau statudol, yn eu profiad hwy, yn eu gweld fel pobl. Roeddent yn teimlo nad yw'r llysoedd, gwasanaethau cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill yn poeni am eu lles – y plentyn yn unig yw eu ffocws. Clywsom yn aml y gallai helpu llesiant rhieni biolegol leihau'n sylweddol yr angen i gymryd plant o'u rhieni yn barhaol.

"Dim ond gwrthrychau ydyn ni."

Dywedodd llawer o gyfranogwyr wrthym eu bod wedi'i chael yn anodd cael unrhyw gymorth ar gyfer eu llesiant eu hunain – er gwaethaf trawma a brofwyd ganddynt drwy gydol eu bywydau eu hunain. Soniodd un wrthym am brofiadau ei ffrind, yr oedd ei phlentyn yn farw-anedig.

Roedd y gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn ymwneud yn helaeth, ond, yn ei barn hi, cyn gynted ag y cafodd marwolaeth y plentyn ei gadarnhau, nid oedd gan y fenyw ifanc hawl i unrhyw gymorth a chafodd yr achos ei gau. Ni chafodd unrhyw gymorth na gofal ei gynnig i'r fam er gwaethaf popeth yr oedd wedi bod drwyddo. Estynnodd y fam allan am gymorth gan y gwasanaethau iechyd meddwl ond ni chafodd ddim. Dywedodd cyfranogwr arall wrthym ei bod mor anobeithiol yr aeth yn y cawd i swyddfa tîm argyfwng am gymorth, ond dywedodd wrthym eu bod wedi gwrthod ei gweld.

Y newidiadau mawr sydd eu hangen: cyn mynd i ofal ac wrth fynd i ofal

Clywsom y cynigion a ganlyn ar gyfer diwygio'r system ofal:

Gwybod eich hawliau: Dylai rhieni biolegol sydd â phrofiad o ofal gael gwell addysg am yr hyn i'w ddisgwyl gan y gwasanaethau cymdeithasol, a'r hyn y gall y gwasanaethau cymdeithasol ei wneud a'r hyn na allant ei wneud. Dylai'r derminoleg a ddefnyddir yn y llysoedd, gan y gwasanaethau cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill fod yn glir ac yn hawdd i'w deall.

Cymorth cynnar: Dylai rhieni disgwylidig sydd â phrofiad o ofal gael mwy o help tra'u bod yn feichiog i'w paratoi ar gyfer bod yn rhieni. Dylid cynnig gwasanaethau cymorth yn gynnar iawn. Dylai hyn gynnwys dod â'r teulu cyfan ynghyd i drafod opsiynau cymorth. Dylai'r cymorth hwn fod yn ddiwylliannol sensitif.

Eiriolwr penodedig: Dylai rhieni biolegol plentyn gael eiriolwr penodedig cyn gynted ag y bydd y plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant.

Canolfannau asesu rhieni/canolfannau mamau a babanod: Mae angen adolygiad o ganolfannau asesu rhieni i ystyried effeithiolrwydd a moeseg materion megis: y broses o werthuso rhieni, preifatrwydd a sefyllfa fyw y teulu, disgwyliadau'r rhieni biolegol, a lleoliad canolfannau babanod. Mae gwranddo ar gyn-breswylwyr ac eiriolwyr rhieni yn hollbwysig.

Cymorth parhaus: Ni ddylid rhoi'r gorau'n sydyn i ddarparu cymorth i rieni biolegol. Dylid rhoi cymorth trosiannol yn ei le ar ôl i blentyn y rhiant biolegol gael ei gymryd i mewn i ofal.

Tadau: Dylid datblygu gwasanaethau a phrosiectau sy'n cefnogi tadau plant sydd mewn perygl o gael eu cymryd i mewn i ofal yn benodol.

Addysg a mentora: Dylai fod gwell addysg yn yr ysgol am ryw, perthynas a magu plant. Dylid sefydlu prosiect lle gall mentoriaid sydd wedi bod drwy'r system ofal siarad â disgyblion a chynnig cyngor ac arweiniad iddynt.

3. Mewn gofal: gwasanaethau o safon a chymorth i blant mewn gofal

Gwasanaethau cymdeithasol

Clywsom gan staff a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal fod cymaint o weithwyr cymdeithasol yn cael eu neilltuo i blant mewn gofal fel y gall beri gofid i'r person ifanc. Er enghraifft, clywsom nad yw'n anarferol i'r gweithiwr cymdeithasol sy'n mynychu adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal fyth gyfarfod â'r plentyn dan sylw.

Clywsom hefyd nad yw gwasanaethau cymdeithasol bob amser yn gwneud digon i amddiffyn pobl ifanc. Dywedodd un person ifanc sydd â phrofiad o ofal wrthym, er iddi gael ei rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant pan oedd yn faban, ei bod yn dal i gael ei cham-drin gan ei brawd a'i llysdad. Yna cafodd ei rhoi mewn gofal maeth, lle roedd yn hapus. Serch hynny, roedd y gwasanaethau cymdeithasol yn dal i geisio ei rhoi yn ôl gyda'i mam. Bu'n rhaid iddi frwydro i aros gyda'i gofalwr maeth.

Eglurodd rhai o staff y trydydd sector wrthym fod beichiau achosion gweithwyr cymdeithasol yn golygu eu bod yn tueddu i roi cymorth i lawer o bobl ifanc ac yn anochel yn y pen draw yn canolbwyntio ar y rhai sy'n arddangos ymddygiad heriol iawn. Efallai na fydd ganddynt amser i ateb y ffôn i bobl ifanc a allai, ar yr wyneb, ymddangos fel pe baent mewn lle gwell, hyd yn oed os yw'r bobl ifanc hynny'n ei chael hi'n anodd iawn. Gall y diffyg cymorth hwn olygu bod plant yn cael trafferth wrth iddynt fynd yn hŷn gyda theimladau o unigrwydd ac nad oes ganddynt neb i droi ato.

Dywedodd rhai pobl ifanc y gwnaethom siarad â hwy ei fod yn teimlo fel pe baent yn swian gweithwyr cymdeithasol pan fyddant yn eu ffonio. Nid ydynt am roi pwysau arnynt, ac felly maent yn oedi cyn ffonio. Yn destun pryder, dywedodd rhai pobl ifanc wrthym eu bod wedi mynd i drafferth eithafol i gael sylw gweithwyr cymdeithasol. Roedd rhai wedi cyflawni troseddau, rhai wedi hunan-niweidio, ac eraill wedi ceisio lladd eu hunain. Eglurodd un person ifanc i ba raddau yr oedd yn teimlo bod angen iddo ymddwyn yn eithafol er mwyn cael cymorth.

"Rhaid gwneud rhywbeth mawr er mwyn gwneud i rywbeth ddigwydd."

Fodd bynnag, gwnaethom hefyd glywed straeon cadarnhaol. Dywedodd un cyfranogwr pan oedd yn ffonio ei gweithiwr cymdeithasol pan oedd wedi cynhyrfu, y byddai'n dod draw ati neu'n mynd am dro a sgwrs.

Eiriolwyr a'r 'cynnig gweithredol'

Mae gan bob plentyn yng Nghymru sy'n byw mewn gofal, neu sy'n ymwneud ag ymholiadau amddiffyn plant, hawl i eiriolaeth gan eiriolwr proffesiynol annibynnol. Mae 'cynnig gweithredol' yn golygu bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i wybodaeth am eu hawliau statudol a'u hawliadau o ran eiriolaeth annibynnol.

Dywedodd yr holl bobl ifanc y gwnaethom siarad â hwy a oedd wedi cael eiriolwr annibynnol wrthym pa mor bwysig yr oedd iddynt gael eiriolwr annibynnol a oedd yn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

Fodd bynnag, clywsom yn ymarferol nad yw pob gwasanaeth statudol yn gwneud y 'cynnig gweithredol' drwy gyfeirio plant a phobl ifanc cymwys yn glir at wasanaethau eiriolaeth. Roedd dwy ferch ifanc sydd â phrofiad o ofal y gwnaethom siarad â hwy yn teimlo bod yr awdurdod lleol, yn eu profiad hwy, wedi bodloni ei rwymedigaeth i gynnig eiriolwr drwy roi taflen mewn bwndel o waith papur a gafodd ei roi iddynt ar y diwrnod y cawsant eu cymryd i mewn i ofal. Dadl y ddwy ferch ifanc oedd nad dyna'r ffordd gywir i egluro'r cynnig gweithredol i blant mewn gofal.

Clywsom fod eiriolaeth mor bwysig fel y dylai bob plentyn mewn gofal gael cymorth eiriolaeth hirdymor wedi'i ddarparu gan eiriolwr wedi'i enwi. O dan y system bresennol, mae gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal hawl i eiriolaeth yn seiliedig ar fater: cymorth eiriolaeth byrdymor mewn perthynas â mater penodol. Clywsom y byddai darparu gwasanaeth eiriolaeth hirdymor gan eiriolwr wedi'i enwi yn golygu bod ganddynt bob amser rywun y mae ganddynt berthynas ag ef i droi ato pan fo angen, yn hytrach na gorfod dibynnu ar gael 'cynnig' eiriolwr gwahanol pan fo argyfwng.

Gofal maeth

Nifer y lleoliadau

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal y gwnaethom siarad â hwy wedi symud rhwng o leiaf pum lleoliad maeth yn ystod eu plentyndod. Yn aml roedd hyn ar fyr rybudd, neu heb rybudd o gwbl, ac weithiau'n bell iawn i ffwrdd yn ddaearyddol. Mewn llawer o achosion roedd hyn yn cynnwys symud rhwng ysgolion a grwpiau ffrindiau a oedd newydd eu sefydlu. Dywedodd y bobl ifanc hynny, a'r staff y gwnaethom siarad â hwy, fod hyn yn wirioneddol

ansefydlogi a thrallodus iddynt, yn enwedig gan eu bod eisoes wedi profi'r trawma o gael eu cymryd o'u teuluoedd biolegol.

Dyweddodd un fenyw ifanc wrthym ei bod bob amser wedi cadw sach gefn fach ar waelod ei gwely gyda'i holl hanfodion ynddo - er mwyn iddi allu gafael ynddo a gadael ar unwaith.

Ansawdd y lleoliadau

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wrthym, yn eu barn hwy, bod o leiaf un o'u lleoliadau maeth o ansawdd gwael. Dywedodd gwahanol bobl wrthym fod eu gofalwyr wedi bod yn:

- amhroffesiynol: ymddangos yn nhŷ teulu ffrind plentyn i weiddi ar y plentyn o flaen ei ffrind a theulu ei ffrind;
- cam-drin yn emosiynol: roedd cyfranogwyr wedi cael eu cloi mewn ystafelloedd tywyll fel cosb, roedd un arall wedi cloi'r plentyn allan o'r tŷ ac yna wedi ffonio'r gwasanaethau cymdeithasol i'w chodi am y dydd i roi seibiant i'r gofalwr maeth;
- cam-drin yn rhywiol: dywedodd un cyfranogwr wrthym ei bod wedi cael ei gorfodi i wneud 'dawnsiau rhywiol' fel plentyn ifanc, a'i bod wedi'i lleoli gyda rhywun a oedd â chysylltiadau â phedoffiliaid a gafwyd yn euog (cafodd y plentyn hwn ei gymryd o'r cartref yn syth pan ddaeth hyn i'r amlwg);
- treisgar: dywedodd un cyfranogwr wrthym ei bod wedi cael ei cham-drin yn gorfforol, ei brathu, a'i gwthio i lawr y grisiau yn ystod ei lleoliadau maeth.

Cafwyd adborth cadarnhaol hefyd am ofalwyr maeth. Dywedodd un fenyw ifanc wrthym fod un gofalwr maeth yn arbennig yn fendigedig ac wedi newid ei bywyd er gwell. Pwysleisiodd rhai aelodau o staff y buom yn siarad â hwy fod rhai gofalwyr maeth yn gwneud gwaith gwych.

Fe'n sicrhawyd gan swyddogion Cyngor Sir Fynwy bod tîm maethu'r cyngor yn cynnal gwiriadau helaeth o ofalwyr, sy'n cynnwys gwiriadau'r heddlu, cyswllt â gwasanaethau statudol, cofnodion meddygol a gall gynnwys archwilio trawma yn y gorffennol gan ddarpar ofalwyr.

Lleoliad y gofal

Clywsom gan rai gweithwyr proffesiynol fod prinder lleoliadau maeth o ansawdd uchel yn eu hardal leol. Weithiau mae plant yn cael eu lleoli ymhell o'u cartrefi. Mae hynny'n teimlo fel y byddant yn siŵr o fethu, oherwydd nid oes ganddynt rwydwaith cymorth. Cafodd un person ifanc o Abertawe ei roi mewn cartref preswyl yn Lloegr. Cawsant wybod bod 'angen help

ychwanegol' arnynt. Nid oedd ganddynt ddim cefnogaeth o gwbl mor bell oddi wrth bawb yr oeddent yn ei adnabod.

"Dw i'n un o'r rhai sydd wedi cael ei anghofio"

Elw

Roedd rhai pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal y buom yn siarad â hwy yn teimlo'n gryf bod y rhan fwyaf o ofalwyr maeth yn ei wneud am yr arian. Clywsom gan un person ifanc fod gofalwyr maeth yn chwarae'r system i leihau cost darparu gofal er mwyn cynyddu ei incwm.

Soniodd staff am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddeddfu i ddileu elw. Er bod yr egwyddor yn cael ei chroesawu, roedd rhai pryderon ynghylch yr effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar argaeledd lleoliadau.

Cydberthnasau â brodyr a chwiorydd

Dyweddodd rhai o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â hwy sut roedd y system ofal wedi'u gwahanu oddi wrth eu brodyr a'u chwiorydd. Roedd rhai wedi gwneud y penderfyniad i adael eu rhieni oherwydd eu bod yn eu cam-drin, ond roedd eu brodyr a'u chwiorydd wedi aros gartref.

Roedd un arall mewn lleoliad gyda gofalwr maeth gyda'i frodyr a chwiorydd. Roedd yn teimlo bod y gofalwr yn eu trin yn wael iawn, ac felly gwnaeth y penderfyniad i adael. Fodd bynnag, arhosodd y brodyr a'r chwiorydd ar ôl. Ers hynny y gofalwr sydd wedi penderfynu a yw'n gallu gweld y brodyr a'r chwiorydd.

Gofal gan berthynas

Clywsom gan swyddogion y cyngor fod gofalwyr sy'n berthnasau yn cael eu hasesu yn erbyn rheoliadau maethu. Mae'r rheoliadau yr un fath p'un a ydych yn aelod o'r teulu neu'n faethwr proffesiynol. Mae hyn yn ei gwneud yn hynod heriol i aelodau'r teulu gyrraedd y trothwy gofynnol i ofalu am y plentyn. Pan na all aelod o'r teulu fodloni'r rheoliadau maethu llym ond ei fod yn dal i fod er lles gorau'r plentyn i gael ei leoli gyda'r aelod hwnnw o'r teulu, bydd yr aelod o'r teulu yn colli'r cymorth ariannol a ddaw (er y gallai fod angen mawr iawn amdano).

Addysg

Cymorth gan weithwyr proffesiynol mewn ysgolion

Clywsom gan rai cyfranogwyr fod athrawon ysgol yn ei gwneud yn amlwg iawn eu bod mewn gofal. Roedd hyn yn eu hamlygu ar gyfer bwlio, ac yn golygu nad oeddent byth yn cael seibiant o'u profiadau o'r system ofal.

Clywsom adborth cadarnhaol iawn am un ymarferwr penodol yn Abertawe, a fyddai'n gwneud gwaith ar draws ysgolion i gefnogi plant sydd â phrofiad o ofal.

Symud ysgolion

Siaradodd pobl ifanc eraill sydd â phrofiad o ofal â ni am gael eu symud yn rheolaidd o un ysgol i'r llall. Gwnaethant sôn wrthym ei bod yn anodd iawn iddynt wneud ffrindiau hirdymor a meithrin rhwydwaith cymorth iddynt eu hunain.

Dywedodd un person ifanc wrthym ei fod wedi'i orfodi i symud ysgol oherwydd, ar ôl symud gofalwyr maeth, roedd y tacsis yr oedd eu hangen arni i barhau i fynychu'r un ysgol yn rhy ddrud. Roedd hyn yn golygu ei bod wedi colli ei grŵp o ffrindiau, a oedd yn wirioneddol bwysig iddi.

Y newidiadau mawr sydd eu hangen: bod mewn gofal

Clywsom y cynigion a ganlyn ar gyfer diwygio'r system ofal:

Lleoliadau: Dylai fod digon o leoliadau o ansawdd da yn y lleoedd iawn. Dylid cael gwell asesiadau o addasrwydd teuluoedd sy'n darparu gofal maeth.

Iechyd meddwl a llesiant: Dylid darparu therapi fel mater o drefn i unrhyw blentyn mewn gofal sy'n gofyn amdano a dylid parhau i'w ddarparu i bobl ifanc y tu hwnt i 21 oed. Dylai therapi a chymorth i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal fod yn ystyriol o drawma. Ni ddylid cyflwyno gwasanaethau generig dim ond oherwydd bod person ifanc mewn gofal. Dylai fod gan 'ystyriol o drawma' wir ystyr a dylai fod yn seiliedig ar brofiadau unigol y person.

Rheoliadau maethu: Dehongli rheoliadau maethu yn fwy hyblyg i gefnogi gofalwyr sy'n berthynas i fabwysiadu plentyn pan fo hynny er budd pennaf y plentyn.

4. Ar ôl gofal: cymorth parhaus pan fydd pobl ifanc yn gadael gofal

Iechyd meddwl a llesiant

Argraff gyffredinol o iechyd meddwl y rhai sy'n gadael gofal

Clywsom fod anghenion iechyd meddwl sylweddol ymhlith y rhai sy'n gadael gofal.

Dywedodd rhai staff prosiect wrthym fod y trawsnewid yn 18 oed ac yn 21 oed yn hollbwysig. Mae person ifanc yn debygol o weld gostyngiad amlwg yn y cymorth gan wasanaethau statudol (naill ai cymorth personol neu gymorth ariannol). Mae llawer o bobl ifanc yn dal i fod yn agored iawn i niwed yn yr oedran hwnnw - dyna pryd y mae angen i wasanaethau gynyddu, nid lleihau.

Pontio o wasanaethau iechyd meddwl plant (CAMHS) ac oedolion (AMHS).

Clywsom nad oes proses bontio dda bob amser o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Nid oes gan wasanaethau oedolion yr adnoddau i gynnig gwasanaethau mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person ifanc. Cawsom wybod, yn gyffredinol, fod pobl ifanc yn nodi nad yw gwasanaethau iechyd meddwl oedolion yn rhoi'r hyn sydd ei angen arnynt.

Y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n gadael gofal

Symud ymlaen o leoliadau maeth

Dywedodd bron pob un o'r rhai sy'n gadael gofal a siaradodd â ni am eu profiadau o adael gofal mai ychydig iawn o gymorth a gawsant i'w helpu i symud ymlaen o leoliadau maeth. Eglurodd staff y prosiect y gall y trawsnewid fod yn heriol iawn.

Dywedodd rhai o'r bobl ifanc sy'n gadael gofal wrthym nad oedd unrhyw gynllun ar eu cyfer wrth iddynt nesáu at fod yn oedolion. Roeddent yn teimlo bod penderfyniadau'n cael eu gorfodi arnynt. Roedd y staff sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n gadael gofal yn cytuno. Clywsom fod cynlluniau llwybr yn llawer rhy amwys, ac yn aml nid ydynt yn adlewyrchu'r hyn y mae staff y cynllun yn ei ddweud wrthynt.

Clywsom gan staff prosiect lle cafodd trefniadau pontio eu cytuno ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, roedd y broses o roi'r cynlluniau hynny ar waith yn wael iawn. Dywedodd un gweithiwr wrthym fod cael cynllun llwybr clir yn hanfodol ac iddo gael ei oruchwylio gan wasanaethau statudol ond nad dyna oedd y realiti.

"Mae cam amlwg yn ôl gan y gwasanaethau cymdeithasol pan fydd pobl ifanc yn mynd i dai â chymorth".

Clywsom hefyd fod angen cymorth hirdymor ar bobl ifanc. Er bod gan bobl ifanc yn gyfreithiol ac mewn theori hawl i gymorth hyd at 21 a 25 oed mewn rhai amgylchiadau, yn aml mae hyn yn lefel isel iawn neu ddim yn bodoli. Eglurodd rhai aelodau o staff fod 25 oed yn bwynt terfyn llwyr. Efallai na fydd gan bobl ifanc yr hawl i aros mewn llety â chymorth mwyach a gallai fod angen iddynt fyw'n annibynnol. Mae'n bosibl na fydd ganddynt wasanaethau cymdeithasol oedolion i'w cefnogi er eu bod yn agored i niwed. Gall y bregusrwydd hwnnw arwain at y person ifanc yn cael ei ddal rhwng y systemau a'r trothwyon – gyda'u hanghenion byth yn cael eu deall na'u diwallu.

Atgyfeirio

Clywsom gan staff a phobl ifanc ei bod yn ddefnyddiol iawn atgyfeirio'r rhai sy'n gadael gofal at wasanaethau cymorth amrywiol, boed yn rhai ariannol, meddygol neu fel arall. Weithiau nid yw'r bobl ifanc yn cael gwybod am yr holl wasanaethau sydd ar gael iddynt gan weithwyr proffesiynol eraill, ac felly nid ydynt yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Materion y gweithlu

Dyweddodd staff o un sefydliad wrthym nad oes digon o staff i lenwi'r swyddi y maent yn eu hysbysebu. Nid ydynt erioed wedi bod yn y sefyllfa honno o'r blaen. Mae pobl wedi newid gyrfaedd yn ystod COVID; mae gofal cymdeithasol yn arbennig yn teimlo'r effaith.

Clywsom nad yw o reidrwydd yn gwestiwn o arian i ddenu staff. Nid yw gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn hawdd, ac mae'n anodd 'diffodd'. Roedd rhai gweithwyr cymdeithasol wedi profi camdriniaeth a bygythiadau o drais yn gweithio gyda phobl ifanc heriol iawn. Mae buddsoddi yn llesiant staff yn bwysig iawn.

Gweithwyr cymdeithasol

Clywsom gan staff o un prosiect fod gwasanaethau cymdeithasol yn cymryd cam yn ôl pan fydd y rhai sy'n gadael gofal yn symud i lety â chymorth. Roeddent yn teimlo bod hyn oherwydd llwyth achosion gweithwyr cymdeithasol.

Clywsom fod gwasanaethau cymdeithasol, mewn gwirionedd, yn pennu anghenion pobl ifanc yn ôl risg yn hytrach nag angen gwirioneddol: nid yw'r system yn deall y gwahaniaeth rhwng *anghenion uchel a risg uchel*.

Dyweddod eraill wrthym nad yw rhai gweithwyr cymdeithasol yn ystyried anghenion unigol y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy, sy'n amrywio'n sylweddol o un person i'r llall.

Cynghorwyr Pobl Ifanc

Er y dylai pawb sy'n gadael gofal gael Cynghorwr Pobl Ifanc, clywsom gan y rhai sy'n gadael gofal a staff eu bod yn dueddol o fod â llwythi achosion uchel iawn (o leiaf 30 o bobl ifanc yr un), ac felly yn aml nid ydynt yn ymwneud llawer â bywyd y person ifanc ac nad oes ganddynt yr amser i feithrin perthnasoedd a darparu cymorth ystyrlon.

Dyweddod rhai o'r staff y gwnaethom siarad â hwy fod y Cynghorwyr Pobl Ifanc yn aml yn gofyn iddynt wneud rhywfaint o'u gwaith i helpu'r person ifanc. Gall hyn fod yn broblem, clywsom, oherwydd mae gan y Cynghorwyr rôl hollbwysig o ran penderfynu a all person ifanc fyw'n annibynnol.

Dyweddod rhai cyfranogwyr wrthym nad yw'r Cynghorwyr fel arfer yn addysgu sgiliau bywyd ehangach i bobl ifanc. Mae hyn yn bwysig iawn i bobl ifanc – mae angen y sgiliau hynny arnynt cyn iddynt droi'n 18 oed.

Dyweddod un fenyw ifanc wrthym ei barn nad yw rhai Cynghorwyr Pobl Ifanc yn dda iawn yn eu swyddi, ei bod yn anodd cael gafael arnynt a'u bod yn amhroffesiynol.

Llety

Y Cynllun 'Pan Fydda i'n Barod'

Diben y cynllun yw galluogi pobl ifanc mewn gofal maeth i barhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth unwaith y byddant yn troi'n 18 oed hyd at 21 oed, neu hyd at 25 oed os ydynt yn cwblhau rhaglen addysg neu hyfforddiant y cytunwyd arni.

Eglurodd rhai aelodau o staff wrthym nad yw'r cynllun Pan Fydda i'n Barod yn gweithio i bawb. Er enghraifft:

- Mae'n llai tebygol y bydd y person ifanc eisiau aros gyda'i ofalwr maeth os nad yw wedi bod mewn lleoliad hirdymor.
- Bydd rhai gofalwyr maeth yn gweld gostyngiad mewn incwm maethu os byddant yn cytuno i gymryd rhan yn y cynllun Pan Fydda i'n Barod, a all fod yn rhwystr iddynt.
- Nid yw'n berthnasol mewn gofal preswyl.

Llety â chymorth

Dywedodd pob un o'r bobl ifanc a'r staff y gwnaethom siarad â hwy am anghenion llety y rhai sy'n gadael gofal wrthym fod y sefyllfa'n heriol iawn i bobl ifanc sy'n trosglwyddo o'r system ofal i fyd oedolion.

Teimlai rhai gweithwyr proffesiynol y siaradwyd â hwy y gallai gofalyr maeth wneud mwy i baratoi pobl ifanc ar gyfer annibyniaeth.

Awgrymodd rhai pobl ifanc sy'n gadael gofal y byddai wedi bod yn well rhoi cynnig ar lety newydd cyn penderfynu a oeddent am fwy yno ai peidio. Roeddent hefyd eisiau gallu symud yn ôl i ble'r oeddent os nad oeddent yn ymgartrefu'n dda yn eu cartref newydd.

Fodd bynnag, dywedodd rhai staff wrthym nad yw'r system yn y pen draw yn caniatáu i bobl ifanc ddewis ble i fynd. Yn aml, ni allant gael mynediad i'w hoff lety oherwydd:

- Nid oes unrhyw leoedd.
- Daw rhai lleoliadau i ben yn 18 oed.
- Mae'r gost yn rhy uchel. Mae lleoliadau bob amser yn cael eu hariannu hyd nes bod y person ifanc yn 18 oed. Ar ôl 18 mae'n dibynnu ar sefyllfa y person ifanc. Os ydynt yn gweithio gallant golli'r cymorth ariannol hwnnw.

Byw'n annibynnol

Clywsom fod y rhai sy'n gadael gofal yn aml yn ei chael yn anodd sicrhau eiddo rhent preifat. Yn aml nid oes ganddynt unrhyw warantwyr, sy'n ei gwneud yn anodd ymrwymo i gytundebau rhentu gyda landlordiaid.

Dywedodd gweithwyr cymorth tai proffesiynol wrthym hefyd pan fo tai rhent preifat ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal eu bod yn tueddu i fod mewn cyflwr gwael iawn.

Mae tai cymdeithasol hefyd yn anhygyrch i lawer o bobl ifanc oherwydd y prinder llety yn y lleoedd iawn. Dim ond nifer cyfyngedig o atgyfeiriadau y mae rhai paneli tai awdurdodau lleol yn eu derbyn. Gall y rhai sy'n gadael gofal wneud cais am dai cymdeithasol yn unigol, ond nid oes ganddynt unrhyw flaenoriaeth dros ymgeiswyr eraill ac felly byddant yn cael trafferth oherwydd prinder tai cymdeithasol cyffredinol.

Clywsom gan staff y sector gwirfoddol a'r cyngor fod prinder cenedlaethol o fflatiau bach un ystafell wely/stiwdio.

Dod o hyd i waith

Clywsom weithiau fod yn rhaid i bobl ifanc sydd ag anghenion cymorth gael eu hannog i beidio â chael swyddi – fel arall ni allent fforddio'r rhenti yn eu tai â chymorth. Gall yr incwm o gyflogaeth effeithio ar eu hawliau, eu hawliadau, a lefelau cymorth gan sefydliadau, a all fod yn niweidiol i'r person ifanc. Efallai y bydd yn rhaid iddynt symud allan o'r hyn sydd wedi dod yn lety diogel iddynt os cânt swydd.

Sgiliau bywyd

Dyweddodd rhai o'r bobl ifanc sy'n gadael gofal wrthym nad oedd ganddynt y sgiliau sylfaenol yr oedd eu hangen arnynt i fyw'n annibynnol, megis coginio, glanhau, siopa a chyllidebu. Nid yw llawer o blant sydd â phrofiad o ofal wedi cael y sgiliau hyn gan eu gofalmwr maeth. Dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol wrthym y gall pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ymddangos yn iau na'u hoedran oherwydd y trawma y maent wedi'i profi.

Clywsom gan rai gweithwyr prosiect y gall taliadau brys untro – er enghraifft ar gyfer costau ynni – effeithio ar allu pobl ifanc i gyllidebu'n iawn oherwydd eu bod yn dod i arfer â'r rhwyd ddiogelwch honno.

Trafnidiaeth

Dyweddodd rhai staff sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n gadael gofal wrthym y gall cost trafndiaeth fod yn broblem i'r rhai sy'n gadael gofal. Gall tocynnau bus i'r gwaith fod yn ddrud iawn. Yn yr un modd, er bod gweithgarwch allgyrsiol yn wirioneddol bwysig i lawer o bobl ifanc, gall costau trafndiaeth olygu bod cymryd rhan ynddo yn rhy ddrud.

Camddefnyddio sylweddau

Dyweddodd staff o Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Teuluol Barnardo's wrthym eu bod o'r farn bod camddefnyddio sylweddau yn llawer amlycach na deng mlynedd yn ôl. Yn aml, gall plentyn neu berson ifanc hunan-feddyginiaethu oherwydd efallai ei fod yn delio â cholled, dadreoleiddio emosynol, neu ddim yn cael unrhyw atgyfnerthiad cadarnhaol. Gall y trawma hwnnw arwain at bobl ifanc yn teimlo'n ddrwg amdanynt eu hunain, a all yn ei dro wneud camdrin sylweddau yn fwy tebygol.

Dyweddodd gweithwyr prosiect wrthym hefyd y gall y rhai sy'n gadael gofal fod yn agored i gael eu hecsbloetio i symud sylweddau ar ran troseddwy.

Y cynllun peilot incwm sylfaenol

Roedd gan y rhan fwyaf o'r staff a'r bobl ifanc y buom yn siarad â hwy rai pryderon ynghylch y cynllun peilot incwm sylfaenol a gafodd ei gyflwyno yn ddiweddar ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Clywsom:

- ni fyddai llawer o'r rhai sy'n gadael gofal yn gwybod sut i gyllidebu a gwario arian yn dda, ac maent yn agored i'w gamddefnyddio neu gael eu hecsbloetio.
- bydd yn rhaid i bobl ifanc sy'n derbyn yr incwm dalu am lety â chymorth eu hunain. Mewn gwirionedd ni fyddant yn gallu ei fforddio. Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc sy'n derbyn yr incwm sylfaenol, sydd wedi bod yn gymharol ddiogel ymlaen llaw, yn mynd i fod allan yn y gymuned ar eu pen eu hunain a heb gymorth.
- Gall fod yn heriol i bobl ifanc pan ddaw'r taliadau incwm sylfaenol i ben. Roedd Llywodraeth Cymru wedi addo cymorth i'r bobl ifanc hynny reoli'r cyfnod pontio hwnnw, ond roedd pryderon efallai na fyddai'r cymorth hwn yn cael ei wireddu.

Dywedodd rhai staff prosiect wrthym, yn fras, y gellir rhannu'r rhai sy'n derbyn yr incwm sylfaenol yn ddau grŵp:

1. Pobl ifanc sy'n elwa'n fawr ohono: gallant gynilo ac edrych i'r dyfodol, neu brynu car iddynt eu hunain, ac ati.
2. Pobl ifanc nad ydynt yn rheoli'r arian yn dda. Efallai eu bod yn prynu sylweddau i'w camddefnyddio, er enghraifft. Mae'r staff hefyd yn poeni am y risgiau o ran ecsploetio'r grŵp hwn o bobl ifanc.

Dywedodd y staff nad yw'n ymddangos bod tir canol hyd yma yn y cyfnodau cynnar hyn. Yn gyffredinol, mae mwy yn ei ddefnyddio'n synhwyrol na pheidio. Fodd bynnag, gall cymhelliant fod yn broblem i'r holl bobl ifanc sy'n derbyn arian y cynllun peilot; nid oes angen iddynt chwilio am hyfforddiant neu gyflogaeth oherwydd incwm sylfaenol.

Roedd staff yn awyddus i sicrhau bod canlyniadau iechyd meddwl y cynllun peilot yn cael eu gwerthuso, yn ogystal â mesurau eraill fel sicrhau cyflogaeth, a sut y cafodd yr arian ei ddefnyddio.

Agweddau at rieni sydd â phrofiad o ofal

1. Dywedodd un fam ifanc wrthym fod ei phrofiadau o fod mewn gofal yn effeithio ar sut mae ei phlentyn bellach yn cael ei drin yn yr ysgol. Teimlai, yn hytrach na chefnogi anghenion y

plentyn, fod yr ysgol yn cymryd yn ganiataol eu bod yn ymwneud â rianta ac yn ei hatgyfeirio at ddsbarthiadau magu plant. Y dybiaeth yw mai'r broblem yw ei gallu i rianta oherwydd ei bod wedi bod mewn gofal.

"Mae gan fy mab ADHD ac roedd angen asesiad niwroddatblygiadol arno - ond roedden nhw'n dweud wrtha i fod angen dosbarthiadau magu plant arna i. Yn y diwedd fe wnaeth y meddyg teulu ymyrryd ar fy rhan."

Y newidiadau mawr sydd eu hangen: ar ôl gofal

Clywsom y cynigion a ganlyn ar gyfer diwygio'r system ofal ar gyfer y cyfnod ar ôl gofal:

Trefniadau pontio: Dylai fod gan bobl ifanc hawl i gael rhoi cynnig ar fyw'n annibynnol wrth iddynt ddod yn oedolion.

Trafnidiaeth: Dylai pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gael trafndiaeth gyhoeddus am ddim hyd at 25 oed.

Dim ymyl clogwyn o ran cymorth yn dod i ben: Dylai cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal barhau ar ôl 21 a 25 oed ar gyfer pobl ifanc sydd ei angen. Nid yw'n deg trin pawb yn yr un ffordd gyda chyfyngiadau oedran sydyn ar gymorth statudol. Dylai'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth i'r rhai 21-25 oed sy'n gadael gofal fod yn llawer cliriach.

Cynlluniau llwybr: Nid yw'r rhain yn gweithio. Mae angen gwaith cynllunio hirdymor ar gyfer pob un sy'n gadael gofal, gan gynnwys ystyried: Beth sydd ei angen arnynt? Pa heriau y byddant yn eu hwynebu? Pa gymorth sy'n briodol iddynt i'w helpu i drosglwyddo i fyw'n annibynnol? Dylid meddwl yn fwy cydgysylltiedig wrth weithio allan sut i gefnogi pobl ifanc: dylai elusennau'r sector gwirfoddol, awdurdodau lleol, eiriolwyr ac ati gydweithio.

Hawl statudol i dai: Mae angen gwella'r stoc dai.

Hawl statudol i gymorth iechyd meddwl: Sicrhau bod mwy o wasanaethau iechyd meddwl a llesiant ar gael, heb restr aros.